

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 6 Mehefin 2016 am 7.30yh yn Ystafell Berkley, Penyparc

Presennol:

Cyng. Ann Stokoe (*Cadeirydd*)
Cyng. Lyn Jones
Cyng. Huw Jones
Cyng. Dilwyn Jenkins
Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

Cyng. Llinos Price (*Is-Gadeirydd*)
Cyng. Des Davies
Cyng. Auriol Williams
Cyng. Eurig Lloyd
Cyng. Haydn Lewis (*aelod lleol y Cyngor Sir*)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Ann Stokoe, bawb i gyfarfod mis Mehefin. Derbyniwyd alwad ffôn oddi wrth Mrs Llio Phillips, Cyfreithwraig gyda George Davies & Evans, yn egluro nad oedd yn medru mynychu'r cyfarfod i wyntyllu gwybodaeth am weithredoedd Ystafell Berkley. Cytunodd fynychu cyfarfod mis nesaf, sef 4 Gorffennaf.
- 1(a) Penodi Is-Gadeirydd:** Cytunodd y Cyng. Llinos Price gael ei henwebu'n Is-Gadeirydd am 2016-17. Roedd pawb yn gytûn.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorydd Islwyn Iago
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod cofnodion mis Mai yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol**
- 5. Materion yn codi:**
 - (a) Digwyddiad anffodus yn Aberteifi:** (Gweler eitem 9 [126].)
 - (b) Marciadau ar y ffordd yn Patch:** Mae Mr Gari Griffiths, swyddog gydag Adran Briffyrdd y Cyngor Sir, yn cadarnhau y bydd y gwaith yn cael ei gyflawni yn ystod y dyfodol agos. (Gweler eitem 9 [130].)
 - (c) Coed yn gordyfu yn Patch:** Mae Mr Griffiths eto wedi cadarnhau nad oes problem amlwg yno ar hyn o bryd ac mai cyfrifoldeb y perchennog tir ydyw. Mae'r cwyn wedi ei anfon ymlaen hefyd at gwmni Openreach. (Gweler eitem 9 [130].)
 - (d) Cyflenwad Trydan Cae Gwyrdd:** Mae'r Clerc wedi canslo'r cytundeb ac mae'r pŵer bellach wedi ei ddatgysylltu.
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**
I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Hen Ysgol y Ferwig	I'w drafod ym mis Hydref 2016
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc	I'w drafod ym mis Hydref 2016
Ysgol Feithrin Penyparc	I'w drafod ym mis Hydref 2016
Papur Bro "Y Gambo"	I'w drafod ym mis Hydref 2016
Ysgol Gynradd Gymunedol Penyparc	£50
Shelter Cymru	I'w drafod ym mis Hydref 2016

(Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais)

7. Cynllunio

Rhif y Cais	Cyfeiriad a Bwriad	Sylwadau'r Cyngor
A160287	Towyn Farm, Gwbart: "Variation of condition 2 of planning permission A150663 – Change of design"	Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir am fwy o fanylion.
A160441	Plots 4 and 5, Greenfield, Penyparc: "Erection of two dwellings with integral garages"	Nid oedd gan y Cyngor un gwrthwynebiad.
A160458	Tresi Aur, Penyparc: "Remove conditions 1, 2 and 3 from planning permission A000857 (Occupancy conditions)"	Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir am fwy o fanylion.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

8. Materion Ariannol

Biliau wedi eu talu:

Cyflog y Clerc (Mai 2016)	101533	£302.72
Costau'r Clerc (Mai 2016)	101534	£55.35
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Mai 2016)	101535	£75.60
SSE Swalec: Trydan Cae Chwarae Penyparc (bil terfynol wedi ei ddiwygio)	101536	£11.32
Ystafell Berkley (Am lanhau'r ystafelloedd newid)	101537	£220.32

Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Llinos Price bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Materion ariannol eraill: Mae'r dogfennau archwilio am y flwyddyn 2015-16 wedi eu hanfon at yr archwilydd allanol, Grant Thornton ar 19/5/16.

9. Gohebiaeth

126	Cyngor Tref Aberteifi	Ymateb i lythyr ynglŷn â digwyddiad anffodus yn Aberteifi: a) bod Cyngor Tref Aberteifi yn ymgyrchu i ofyn am fwy o bresenoldeb yr heddlu ar y strydoedd yn y dref; b) bod camerâu Teledu Cylch Cyfyng yn cael eu hail-leoli yn y dref; c) bod angen rhagor o oleuadau i'w gosod mewn mannau lle mae goleuadau'r strydoedd yn annigonol.	Y Clerc i anfon gwybodaeth ynglŷn â'r cyfarfod a drefnir gan Gyngor Tref Aberteifi gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys. Disgwylir i ddau gynrychiolydd o'r Cyngor fynychu'r digwyddiad pan geir cyfle i drafod y materion sydd wrth law.
127	Shelter Cymru	Cais am gymorth ariannol.	I'w drafod ym mis Hydref
128	Ysgol Gynradd Gymunedol Penyparc	Llythyr o ddiolch am rodd ariannol tuag at gostau teithio plant yr ysgol i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Fflint.	Nodwyd
129	Abacus Cleaning Services	Gwybodaeth ynglŷn â glanhau a chynnal llochesi bysiau.	Nodwyd
130	Cyngor Sir Ceredigion (Gwasanaethau Technegol)	Cadarnhad oddi wrth Mr Gari Griffiths y bydd y marciadau ar y ffordd ger y Clwb Cychod yn Patch yn cael eu peintio yn fuan. Cyfrifoldeb y perchennog yw gofalu am y coed yn ymyl yr un safle. [Gweler eitem 5(b) a (c) uchod]	Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Mr Griffiths i ofyn am eglurhad ynglŷn â'r marciadau ar y ffordd ger y Clwb Cychod. Dywedodd y Cyng. Haydn Lewis ei fod yn cyfarfod â Mr Griffiths ar 7 Mehefin.
131	Un Llais Cymru:	Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Pwyllgor Ardal Ceredigion a gynhaliwyd ar 24/6/15 ac agenda Cyfarfod Blynyddol 22/6/16 i'w gynnal yn Neuadd y Sir, Penmorfa am 7.00yh.	Nodwyd

10. Materion Eraill:

- (a) **Tân yng nghiosg Felinwynt:** Yn dilyn cwyn gan Mrs Pauline Matthews am ddifrod i'r ciosg, gofynnwyd i Mr John Morris archwilio'r man. Adroddwyd ganddo nad oedd llawer o ddifrod yno ond bod angen ei lanhau.
- (b) **Gwaith brys ar y system drydan sydd i'w wneud yn Ystafell Berkley.** Cytunwyd o flaen llaw bod angen arddangos tystysgrif drydan i Ystafell Berkley. Gan fod angen gwneud gwaith ar frys yno, penderfynwyd cysylltu â chwmni Lewlec i gyflawni'r gwaith. Cytunodd yr aelodau bod y Cyngor yn talu 50% o'r gost.

11. Dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol nesaf: 4 Gorffennaf (F)

Cyfarfodydd y Cyngor am 2016: 5 Medi (YB) 3 Hydref (F) 7 Tachwedd (YB) 5 Rhagfyr (F)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 6 June 2016 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc

Present

Cllr Ann Stokoe (*Chairperson*)
Cllr Lyn Jones
Cllr Huw Jones
Cllr Dilwyn Jenkins
Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

Cllr Llinos Price (*Vice Chairperson*)
Cllr Des Davies
Cllr Auriol Williams
Cllr Eurig Lloyd
Cllr Haydn Lewis (*local member of the County Council*)

1. **Chairperson's welcome.** The Chair, Cllr Ann Stokoe, welcomed everyone to the June meeting. An apology for her absence was received from Mrs Llio Phillips, Solicitor with George Davies & Evans. Mrs Phillips stated that she would be present at the next council meeting on 4 July at Hen Ysgol y Ferwig to highlight the information regarding the deeds of Ystafell Berkley.

1(a) **Election of Vice-Chairperson:** Cllr Llinos Price agreed to be nominated Vice-Chairperson for 2016-17.

2. **Apologies for absence:** Councillor Islwyn Iago.

3. Minutes of the previous meeting.

It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Des Davies that the minutes of the May meeting be recorded as correct.

4. Declaration of personal interests

5. Matters arising:

- (a) **Serious incident in Cardigan town:** (See item 9 [126]).
- (b) **Road markings at Patch:** Mr Gari Griffiths, officer with the Highways department of the County Council, has confirmed that the road markings will be completed shortly. (See item 9 [130].)
- (c) **Overhanging tree branches at Patch:** Mr Griffiths also confirmed that the trees are not presently hazardous, and that the responsibility for cutting offending branches lies with the property owner. The complaint has been forwarded to Openreach for action. (See item 9 [130])
- (d) **Cae Gwyrdd Electric Supply:** The Clerk has cancelled the contract; the power, as a result, has been permanently disconnected.

6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Hen Ysgol y Ferwig	To be discussed at the October meeting
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc	To be discussed at the October meeting
Ysgol Feithrin Penyparc	To be discussed at the October meeting
Papur Bro "Y Gambo"	To be discussed at the October meeting
Ysgol Gynradd Gymunedol Penyparc	£50
Shelter Cymru	To be discussed at the October meeting

(Names in italics = accounts forwarded with applications)

7. Planning:

<i>Application No.</i>	<i>Address and Purpose</i>	<i>County Council's Observations</i>
A160287	Towyn Farm, Gwbert. "Variation of condition 2 of planning permission A150663 – Change of design".	The Clerk was asked to contact the County Council requesting more details.
A160441	Plots 4 & 5, Greenfield, Penyparc: "Erection of two dwellings with integral garages".	Council has no objections
A160458	Tresi Aur, Penyparc "Remove conditions 1, 2 and 3 from planning permission A000857 (Occupancy conditions)"	The Clerk was asked to contact the County Council requesting more details.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

8. Financial Matters.

Bills paid:

Clerk's wages (May 2016)	101533	£302.72
Clerk's Expenses (May 2016)	101534	£55.35
H M Customs & Excise (Clerk's Income Tax May 2016)	101535	£75.60
SSE Swalec (Final electricity bill for the Cae Gwyrdd play area)	101536	£11.32
Penyparc YFC (Cleaning of changing rooms)	101537	£31.15

It was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Llinos Price that the above bills be paid.

Other Financial Matters:

The audit forms for the year 2015-16 have been forwarded to Grant Thornton on 19/5/16

9. Correspondence:

126	Cardigan Town Council	Response to Ferwig Community Council's letter regarding the serious incident at Cardigan: a) that Cardigan Town Council campaigns to increase the police presence on the streets of Cardigan. b) that CCTV cameras are re-introduced at potential flashpoints in the town. c) that additional light columns be erected at strategic positions, as a number of back streets in the centre of Cardigan are dimly lit.	The Clerk was asked to contact all members when the date of the meeting with the newly appointed Dyfed-Powys Police & Crime Commissioner is confirmed.
127	Shelter Cymru	Request for financial aid.	To be discussed at the October meeting.
128	Ysgol Gynradd Gymunedol Penyparc	Letter of thanks for financial aid towards the cost of taking pupils to the National Urdd Eisteddfod at Fflint.	Noted
129	Abacus Cleaning Services	Information regarding the cleaning and maintenance of bus shelters.	Noted
130	Ceredigion County Council (Technical Services)	Confirmation received from Mr Gary Griffiths that the markings on the road near Teifi Boating Club at Patch will be painted in the near future. It is the responsibility of the land owner to take care of the trees at the same location. [See item 5(b) and (c) above.]	The Clerk was requested to contact Mr Griffiths asking for an explanation regarding the road markings. Cllr Haydn Lewis stated that he would be meeting with Mr Griffiths the following morning and would discuss this issue with him.
131	One Voice Wales	Minutes of the AGM of the Ceredigion Area Committee dated 24/6/15 and the Agenda of the Ordinary Meeting 22/6/16 to be held at the County Hall, Penmorfa at 7.00pm.	Noted

10. Other Matters:

- (a) **Fire at the Felinwynt kiosk:** Following a complaint by Mrs Pauline Matthews regarding the damage to the kiosk, the Clerk asked Mr John Morris to survey the location. Mr Morris reported that the damage was minimal but that the kiosk needed general cleaning and clearing of the unsightly debris.
- (b) **Electrical work at Ystafell Berkley.** Due to the urgency of supplying an electrical certificate for the property, it was agreed to request Lewlec to improve the system. Members agreed to pay 50% of the cost.

11. Date of next meeting: 4 July 2016 at Hen Ysgol y Ferwig.

Dates of Council Meetings for 2016: 5 September (YB) 3 October (F) 7 November (YB) 5 December (F)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting